RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 44/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 04/04/2023

# Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n **ddiogel yn eu hardal leol?**

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 25

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn ystod 2021-22. Mae'n diweddaru'r dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau 2018-19. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg hapsampl, graddfa fawr, parhaus sy'n cwmpasu pobl ledled Cymru. Cyn dechrau pandemig y coronafeirws (COVID-19) ym mis Mawrth 2020, roedd yr arolwg yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi pobl; ers mis Ebrill 2020, mae wedi'i gynnal dros y ffôn (gydag adran ar-lein ar gyfer rhai ymatebwyr). O ganlyniad i'r gwahaniaeth yn y dull a newidiadau posibl oherwydd y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai ffactorau sy'n gysylltiedig â ph'un a oedd pobl yn ddiogel yn eu hardal leol ai peidio. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur p'un a yw person yn teimlo'n ddiogel yn ei ardal leol ar sail ei ymatebion i gyfres o bedwar cwestiwn sy'n ymwneud â diogelwch yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.

## Canfyddiadau allweddol

Gan gadw ffactorau eraill yn gyson[1], gwelwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.

- Bod yn wryw.
- Bod o dan 65 oed.
- Bod heb gredoau crefyddol.
- Bod â lefel uchel iawn o fodlonrwydd ar fywyd.
- Bod yn fodlon ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr ardal leol.
- Bod heb salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn.
- Bod heb broblem sbwriel yn yr ardal.
- Bod heb broblem graffiti yn yr ardal.

[1] Rydym wedi rheoli ar gyfer ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (e.e. iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a chanran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn annibynnol.

- Teimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.
- Bod â char neu fan ar gael i'w ddefnyddio.
- Byw ym Mhowys, Gwynedd neu Geredigion; o'i gymharu â byw ym Mlaenau Gwent, Torfaen neu Gasnewydd.

Rhestrir y ffactorau eraill a ddefnyddiwyd yn ein dadansoddiad, y gwelwyd nad oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn Adran 5. Fel sy'n wir am bob dadansoddiad o'r math hwn, nid ydym yn gallu priodoli achos nac effaith ffactorau nad ydynt wedi'u mesur yn yr arolwg, na chaniatáu ar eu cyfer.

**Cynnwys**

1. Cefndir ..... 4

2. Y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol ..... 4

3. Dull dadansoddi ..... 5

4. Y prif ffactorau sy’n gysylltiedig â theimlo’n ddiogel yn yr ardal leol ..... 5

5. Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo’n ddiogel yn yr ardal leol ..... 9

6. Dadansoddi'r cwestiynau unigol ..... 10


7. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil ..... 14

## 1. Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried targedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgysylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu, cyflwynodd y Ddeddf saith nod llesiant[2] (Ffigur 1).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Roedd yr arolwg yn 2021-22 yn cynnwys cyfweliadau ffôn gyda hapsampl o dros 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Ddangosydd Cenedlaethol 25: 'Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio'.




***Ffigur 1.*** *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant[2].*

## 2. Y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth sy'n ymwneud â Dangosydd Cenedlaethol 25 drwy ofyn i ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol ba mor ddiogel y maent yn teimlo: yn y cartref ar ôl iddi dywyllu; wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu; wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu; ac wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu.

Defnyddiwyd graddfa pedwar pwynt sy'n amrywio o '1 = diogel iawn' i '4 = anniogel iawn' er mwyn ateb pob un o'r elfennau diogelwch cymunedol hyn. Cafodd yr ymatebion 'diogel iawn' ac 'eithaf diogel' eu cyfuno i greu un mesur, sef 'teimlo'n ddiogel' ar gyfer y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn.[3]

Roedd cyfanswm o 66% o oedolion yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Mae'r ganran hon yn gyson â'r canlyniadau a welwyd yn 2020-21, ond mae'n llai o'i chymharu â 2018-19, pan oedd 71% o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.

---

[2] Deddf Llesiant Cenedlaethol y Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, y gellir ei wylio ar-lein.

[3] Cafodd yr ymatebwyr a atebodd 'anniogel iawn' ac 'ychydig yn anniogel' i'r cwestiynau am ddiogelwch cymunedol eu cyfuno hefyd i ffurfio un grŵp, sef 'teimlo'n anniogel'.

## 3. Dull dadansoddi

Er mwyn deall yn iawn sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at b'un a yw pobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol, defnyddiwyd techneg ystadegol[4] i edrych ar y cysylltiad[5] rhwng pob ffactor a theimlo'n ddiogel yn yr ardal leol, gan gadw pob ffactor arall yn gyson. Mae cadw ffactorau eraill yn gyson (cyfeirir at hyn fel rheoli ar gyfer ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae’n caniatáu inni edrych ar bob ffactor rhagfynegi yn annibynnol (h.y. gan sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Gallwn wedyn gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â theimlo'n ddiogel yn yr ardal leol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

### Cymhlethdod perthnasoedd rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sy’n gysylltiedig â theimlo’n ddiogel yn yr ardal leol, a pha ffactorau y mae teimlo’n ddiogel yn yr ardal leol yn effeithio arnynt. Ar gyfer rhai ffactorau, mae’r berthynas yn amlwg ar sail gwybodaeth flaenorol, ond nid yw’r un mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill[6].

### Dehongli'r canlyniadau

Mae’r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion arwyddocaol yn ystadegol o bobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol, fel sydd wedi’i brofi gan y model atchweliad a ddewiswyd gennym. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio ‘ymylon rhagfynegi’ – wedi'u cyflwyno ar ffurf canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) â’r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol). Mae’r canlyniadau yn dangos o fewn un ffactor penodol (e.e. rhyw), ba mor debygol y mae un grŵp ‘cyffredin’ o bobl sydd â nodwedd a rennir (e.e. dynion) o deimlo’n ddiogel yn eu hardal leol, o’i gymharu â grŵp ‘cyffredin’ arall o bobl sydd â nodwedd a rennir sy’n wahanol (e.e. menywod). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi ar gyfer pob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy’n gorgyffwrdd yn golygu er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o bobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol, nid yw’n hollol glir pa grŵp o fewn y ffactor yw’r un mwyaf rhagfynegol.

## 4. Y prif ffactorau sy’n gysylltiedig â theimlo’n ddiogel yn yr ardal leol

Roedd cyfanswm o 66% o ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Mae’r ffigurau isod yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan gadw’r ffactorau eraill yn gyson) y gwelwyd eu bod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol. Ym mhob ffactor, mae’r grŵp sydd â’r tebygolrwydd mwyaf (y ganran uchaf) o deimlo’n ddiogel yn eu hardal leol wedi’i amlygu mewn glas golau. Hefyd, mae modd casglu'r ffactorau esboniadol ynghyd mewn themâu, fel a ddangosir gan deitlau'r is-benawdau.

---

[4] Atchweliad logistaidd yw’r enw ar y dechneg hon. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol cysylltiedig.


[5] Mae’r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am ba mor debygol y mae ffactorau o berthyn i'w gilydd, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoedd achosol (e.e. byddai’n anghywir dweud bod teimlo’n anniogel yn eu hardal leol yn achosi i bobl deimlo nad oes gan eu hardal leol unrhyw synnwyr o gymuned).

[6] Gall y berthynas hon fod yn fwy cymhleth byth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi’u hystyried (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â theimlo’n ddiogel yn yr ardal leol a theimlo’n fodlon ar yr ardal leol.

## Demograffeg


### Rhyw

Roedd dynion yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu (gartref, wrth gerdded ar eu pen eu hunain ac wrth deithio), o'u cymharu â menywod.





### Oedran

Pobl 65 oed neu'n hŷn oedd y lleiaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, o'u cymharu â phobl rhwng 16 a 44 oed, yn ogystal â phobl rhwng 45 a 64 oed.




### Credoau Crefyddol


Roedd pobl heb grefydd yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu, o'u cymharu â phobl sy'n perthyn i unrhyw enwad Cristnogol.




## Llesiant


### Bodlonrwydd ar fywyd yn gyffredinol

Roedd pobl a oedd yn fodlon iawn ar eu bywydau'n fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu o'u cymharu â phobl â lefel ganolig o fodlonrwydd ar fywyd.




#### Iechyd cyffredinol

Roedd y bobl hynny ag iechyd da iawn neu dda yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu o'u cymharu â phobl ag iechyd gwael neu wael iawn.




#### A oes salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn


Yn yr un modd, roedd y bobl hynny nad oedd arnynt salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.




### Cyfleusterau'r Ardal

#### Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol


Pobl a oedd yn fodlon iawn ar eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu yn eu hardal leol.




### Cydlyniant Cymunedol


#### A yw pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol

Pobl a oedd yn cytuno'n gryf bod pobl yn trin ei gilydd â pharch yn eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.





#### A yw'n ystyried graffiti yn broblem yn yr ardal leol

Pobl nad oedd yn teimlo bod graffiti neu fandaliaeth yn broblem yn eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.



### Faint o broblem yw sbwriel yn yr ardal leol


Roedd pobl a oedd yn ystyried nad oedd sbwriel ‘ddim yn broblem o gwbl’ yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu o'u cymharu â phobl a oedd yn gweld sbwriel naill ai'n ‘broblem ganolig’ neu'n ‘broblem fawr’.




## Trafnidiaeth

### A oes car neu fan ar gael i'r unigolyn


Mae pobl y mae car neu fan ar gael iddynt yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.




## Awdurdod Lleol

### Awdurdod lleol

Pobl a oedd yn byw ym Mhowys, Gwynedd neu Geredigion oedd y mwyaf tebygol o deimlo’n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu. Pobl a oedd yn byw yng Nghasnewydd, Torfaen neu Flaenau Gwent oedd y lleiaf tebygol o deimlo’n ddiogel.



## 5. Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo'n ddiogel yn yr ardal leol

Yn y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd ffactorau eraill yn ein model atchweliad, ond ni welwyd cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol:

- Statws Priodasol.
- Ethnigrwydd.
- Dosbarthiad Trefol/Gwledig.
- A yw'n ystyried baw ci yn broblem yn yr ardal leol.
- A yw'n ystyried tipio anghyfreithlon yn broblem yn yr ardal leol.
- Pa mor aml y mae'n mynd am droeon mwy na 10 munud o hyd.
- A oes ganddo ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol.
- A yw'n meddwl bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol.
- A yw mewn amddifadedd materol.
- A yw'n byw mewn rhanbarth diogel, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

# 6. Dadansoddi'r cwestiynau unigol

**Teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn ystod y nos**

Ar y cyfan, dywedodd 25% o bobl eu bod yn teimlo 'ychydig yn anniogel' neu'n 'anniogel iawn' wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch cyffredinol yn yr ardal leol. Gweler Atodiad A am ddadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb o ffactorau y gwelwyd eu bod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu**

| Thema | Ffactor | Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol |
|---|---|---|
| Ffactorau demograffig | Rhyw | Menywod |
| | Oedran | 65+ |
| Cyfleusterau'r Ardal | Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol | Anfodlon iawn |
| Ffactorau Daearyddol | Dosbarthiad Trefol/Gwledig | Trefol |
| Cydlyniant Cymunedol | Faint o broblem yw sbwriel yn yr ardal leol | Problem fawr |
| | A yw graffiti yn broblem yn yr ardal leol | Mae'n broblem |
| | A yw pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol | Anghytuno'n gryf |
| Diogelwch | Diogelwch yr ardal (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) | Yr 20% mwyaf o ran amddifadedd |

**Teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu**

Ar y cyfan, dywedodd 4% o bobl eu bod yn teimlo naill ai 'ychydig yn anniogel' neu'n 'anniogel iawn' gartref ar ôl iddi dywyllu. Mae tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch cyffredinol yn yr ardal leol. Gweler Atodiad B am ddadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn.

**Tabl 2: Crynodeb o ffactorau y gwelwyd eu bod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu**

| Thema | Ffactor | Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel gartref |
|---|---|---|
| Ffactorau demograffig | Rhyw | Menywod |
| Cyfleusterau'r Ardal | Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol | Anfodlon iawn |
| Ffactorau Daearyddol | Dosbarthiad Trefol/Gwledig | Trefol |
| Llesiant | Bodlonrwydd ar fywyd yn gyffredinol | Isel (0-4) |
| Cydlyniant Cymunedol | Faint o broblem yw sbwriel yn yr ardal leol | Problem fawr |
| | A yw graffiti yn broblem yn yr ardal leol | Mae'n broblem |
| | A yw pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol | Anghytuno'n gryf |
| | A yw'n meddwl bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu | Anghytuno'n gryf |

**Teimlo'n anniogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu**

Ar y cyfan, dywedodd 24% o bobl eu bod yn teimlo naill ai 'ychydig yn anniogel' neu'n 'anniogel iawn' wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu. Mae tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch cyffredinol yn yr ardal leol. Gweler Atodiad C am ddadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn.

**Tabl 3: Crynodeb o ffactorau y gwelwyd eu bod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu**

| Thema | Ffactor | Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel ar drafnidiaeth gyhoeddus |
|---|---|---|
| Ffactorau Demograffig | Rhyw | Menywod |
| | Oedran | 65+ |
| | Crefydd | Crefyddol |
| Cyfleusterau'r Ardal | Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol | Anfodlon iawn |
| Ffactorau Daearyddol | Dosbarthiad Trefol/Gwledig | Trefol |
| Llesiant | Bodlonrwydd ar fywyd yn gyffredinol | Isel (0-4) |
| | Â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn | Â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn |
| Cydlyniant Cymunedol | Faint o broblem yw sbwriel yn yr ardal leol | Problem fawr |
| | A yw graffiti yn broblem yn yr ardal leol | Mae'n broblem |
| | A yw pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol | Anghytuno'n gryf |
| Trafnidiaeth | A oes car neu fan gan/ar gael i'r unigolyn | Nid oes car neu fan ar gael i'r unigolyn |

**Teimlo'n anniogel wrth deithio yn y car ar ôl iddi dywyllu**

Ar y cyfan, dywedodd 3% o bobl eu bod yn teimlo naill ai 'ychydig yn anniogel' neu'n 'anniogel iawn' wrth deithio yn y car ar ôl iddi dywyllu. Mae tabl 4 yn rhoi crynodeb o'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch cyffredinol yn yr ardal leol. Gweler Atodiad D am ddadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn.

**Tabl 4: Crynodeb o ffactorau y gwelwyd eu bod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth deithio yn y car ar ôl iddi dywyllu**

| Thema | Ffactor | Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel ar wrth deithio yn y car |
|---|---|---|
| Ffactorau Demograffig | Rhyw | Menywod |
| | Oedran | 65+ |
| | Statws priodasol | Gweddw |
| Cyfleusterau'r Ardal | Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol | Anfodlon iawn |
| Llesiant | Iechyd cyffredinol | Ag iechyd gweddol neu wael |
| Cydlyniant Cymunedol | Faint o broblem yw tipio anghyfreithlon yn yr ardal leol | Problem fawr |
| | A yw pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol | Anghytuno'n gryf |
| Ffactorau economaidd | A yw mewn amddifadedd materol | Mewn amddifadedd materol |

# 7. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â Dangosydd Cenedlaethol 25: 'Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio'. Ar y cyfan, daeth pum thema ganolog i'r amlwg yn ein dadansoddiad:

1. Demograffeg.
2. Llesiant.
3. Cyfleusterau'r Ardal.
4. Cydlyniant cymunedol
5. Awdurdod lleol

Mae'r berthynas rhwng ffactorau penodol a phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn debygol o fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn y dadansoddiad hwn, ac mae'n debygol bod ffactorau nad ydynt yn cael eu mesur yn yr Arolwg Cenedlaethol yn dylanwadu arni hefyd. Fodd bynnag, mae llawer o'r ffactorau cysylltiedig a drafodwyd gyntaf yn adroddiad 2018-19 yn parhau'n wir ar ôl dadansoddi canlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2021-22. Gallai ymchwil bellach gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau ymchwil ansoddol[7] neu ddulliau cymysg[8].

[7] Defnyddir ymchwil ansoddol yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl er mwyn gweld y tueddiadau yn y ffordd y mae pobl yn meddwl yn ogystal â'u safbwyntiau er mwyn darparu dealltwriaeth well o fater penodol. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil feintiol yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol ar gyfer sampl fawr o boblogaeth (e.e. agweddau, ymddygiadau a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn bennaf.

[8] Mae 'dulliau cymysg' yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol geisio paratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth gadarn ar sail sawl math o dystiolaeth (er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd), gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd dda o ymchwilio i'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr Adroddiad: Luke Naylor

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a dim o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: arolygon@llyw.cymru

---

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80535-705-6